Friends of the Earth Cymru
Cyfeillion y Ddaear Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chnydau GM

Pum cam y mae'n rhaid i'r Cynulliad eu cymryd i gadw Cymru'n Rhydd o GM

Tachwedd 2002

"Ein polisi yw bod Cymru'n rhydd o GM. Mae'n fantais farchnata bwysig i Gymru, gan ei bod yn ffitio i mewn gyda'r ddelwedd 'werdd' a'r tuedd o fewn amaethyddiaeth yng Nghymru i symud oddi wrth ffermio dwys tuag at ddulliau mwy organig a thraddodiadol. Bydd bod yn rhydd o GM yn ein cynorthwyo i gael 'niche' ar y pen yna o'r farchnad."

Rhodri Morgan AC, 15 Hydref 2002

Cyflwyniad

Rydym yn croesawu'r ffaith na thyfwyd cnydau a addaswyd yn enetig (GM) yn yr awyr agored yng Nghymru yn 2002. Mae'r papur hwn, a ddarparwyd ar ran Cymru Rhydd o GM, Undeb Amaethwyr Cymru, Cyfeillion y Ddaear Cymru a Ffederasiwn Cenedlaethol o Sefydliadau'r Merched – Cymru, yn esbonio pam ein bod yn teimlo na ddylid tyfu cnydau GM yng Nghymru yn y dyfodol rhagweladwy ac mae'n rhoi llwybr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gymryd i gyrraedd y nod hwnnw.

Nid ydym yn credu ei fod wedi ei brofi eto y byddai tyfu unrhyw gnwd GM yng Nghymru yn ddiogel i iechyd dynol a'r amgylchedd. Hyd nes y gallwn fod yn hollol hyderus o hyn, nid ydym yn cefnogi tyfu, arbrofi na masnachu unrhyw amrywiaeth GM yng Nghymru.

Mae tyfu cnydau GM wedi bod yn bwnc dadleuol drwy'r byd i gyd. Ar hyn o bryd mae manteision amaethyddiaeth GM yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r manteision i Gymru aros yn rhydd o GM yn amlwg. Mae'r cyhoedd ar y cyfan yn amheus o dechnoleg GM, a byddai'n well ganddynt fwyta bwyd sy'n rhydd o GM. Gall Cymru ennill mantais marchnad drwy barhau'n rhydd o GM, na fyddem byth yn gallu ei wneud drwy ddefnyddio cynnyrch GM.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n chwarae rôl allweddol mewn rheoli cnydau GM yng Nghymru. Mae'r Cynulliad eisoes wedi arwain y ffordd yn Ewrop gyda'i agwedd amheus tuag at organebau GM sy'n draws bleidiol. Dyma'r awdurdod cyntaf yn Ewrop i osod pellter gwahanu statudol rhwng cnydau GM a chnydau nad sy'n GM. Credwn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud y gorau o'i rôl ganolog o fewn y DG a'r UE i wrthod tyfu cnydau GM nes y caiff eu diogelwch ei sicrhau.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu pum cam allweddol y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd dros y chwe mis nesaf.

- Gwrthod ychwanegu yr India Corn GM ChardonLL i'r Rhestr Hadau Cenedlaethol
- Gwneud y ddeddf sy'n ymwneud â rhyddhau GM yn llym ac yn dryloyw
- Gwneud cais i Gymru gael ei heithrio o ganiatâd marchnata GM Ewropeaidd
- Cadw'r hawl i wrandawiad cyhoeddus ar faterion diogelwch GM
- Cael cyngor annibynnol ar faterion GM

Cam 1:

Rhaid i Mike German wrthod ychwanegu ChardonLL i'r Rhestr Hadau Cenedlaethol.

Unwaith yr ychwanegir hedyn i Restr Genedlaethol o Amrywiaethau'r DG gellir ei farchnata ledled y DG. Ers datganoli rhaid i benderfyniad i Restru gael ei wneud gan yr awdurdodau perthnasol yn Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y flwyddyn 2000 rhoddodd Christine Gwyther, Gweinidog Amaeth Cymru ar y pryd, ddarpar gymeradwyaeth i'r india corn GM ChardonLL gael ei ychwanegu i'r Rhestr.

Sicrhaodd wrthwynebiadau i'r darpar gymeradwyaeth bod gwrandawiad yn cael ei alw i benderfyniad y Gweinidog i gyflwyno'r hedyn i'w restru. Cynhaliwyd wrandawiadau i'r

amrywiaeth rhwng 2000 a 2002. Fe'u gohiriwyd am gyfnod sylweddol wrth i'r ffaith ymddangos nad oedd ChardonLl wedi cwblhau y cyfnod arbrofi angenrheidiol o ddwy flynedd cyn y cymeradwyodd awdurdodau Ffrainc ef ar gyfer ei farchnata.

Mae'r gwrandawiadau wedi dod i ben a bydd y Cadeirydd yn anfon copi terfynol i Weinidogion yr Awdurdodau Cenedlaethol erbyn diwedd mis Hydref 2002. Unwaith y byddant wedi ystyried ei adroddiad a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i wrandawiad ChardonLL byddant yn gwneud penderfyniad ar y cyd .

Ein barn ni yw y gellir cyfiawnhau'n gyfreithlon gwrthod ychwanegu ChardonLL i'r Rhestr Genedlaethol.

Yn wir, byddem yn dadlau'n gyfreithiol, bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wrthod ychwanegu ChardonLL i'r rhestr oherwydd:

- Nid yw ChardonLL o werth boddhaol dros dyfu a defnyddio (Rheol. 5(3)(c) o Gyfarwyddeb yr UE 2001/3510); ac
- Ni ellir dweud bod "pob cam priodol wedi eu cymryd i osgoi effeithiau andwyol i iechyd dynol a'r amgylchedd" yn unol ag Erthygl. 4(4) o Gyfarwyddeb 70/457 (fel y'i diwygiwyd).

Ar sail hyn ymhlith eraill gall Mike German, a rhaid iddo, wrthod ychwanegu ChardonLL i Restr Hadau Cenedlaethol.

Cam 2:

Rhaid i reoliadau rhyddhau bwriadol GM Cymru fod mor llym â phosib a gwneud yn siwr bod y system cyn agored ac mor ddemocrataidd â phosib.

Rhaid gwneud y Rheoliadau ar gyfer trawsddodi Cyfarwyddeb yr EU ar Rhyddhau Cnydau GM (2001/18/EU) i Gyfraith Cymru yn fwy cyfyngol na'r rhai hynny sy'n cael eu hystyried gan y cynulliad ar hyn o bryd.

Mae gan y Cynulliad y rhyddid i ysgrifennu ei reoliadau ei hun ar y mater hwn, cyn belled nad yw'n gwyro o amcanion y Gyfarwyddeb. Mae cwmpas i'r Cynulliad ddrafftio reoliadau penodol sy'n cefnogi ei bolisi datganedig ar gyfyngu tyfu cnydau GM yng Nghymru. Yn anffodus mae'r rheoliadau drafft sydd wedi eu cyflwyno i'r Cynulliad bron yn union yr un fath a'r rheini a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (DEFRA) y DG ac ymddengys nad yw fersiwn Cymru wedi cymryd i ystyriaeth ddiddordeb penodol Cymru mewn cadw amgylchedd rhydd o GM neu bolisi datganedig y Cynulliad Cenedlaethol o weithredu'r polisi GM mwyaf cyfyngedig posib o fewn gorfodaeth y gyfraith. Mae gweithrediad rheoliadau rhyddhau bwriadol yng Nghymru yn rhoi cyfle gwych a phrin i roi effaith gyfreithiol i'r polisi hwnnw sydd, yn ôl geiriad presennol y drafft, yn cael ei wastraffu.

Bydd sesiwn lawn o'r Cynulliad yn pleidleisio ar y rheoliadau ym mis Rhagfyr.

Byddem yn annog y Cynulliad yn arbennig i:

- Wrthod y newid i'r diffiniad o "niwed" sydd wedi ei gynnwys yn rheoliadau Lloegr, a fyddai'n ei gwneud yn anoddach i'r Cynulliad ddiogelu amgylchedd Cymru.

Mae hyn o bwys dirfawr gan ei fod yn edrych fel bod y newid i'r diffiniad yn rheoliadau Lloegr wedi ei anelu'n benodol at rwystro Cymru rhag ceisio diogelwch y Cymal Diogelu fel ag y gwnaeth mewn perthynas â phlannu ChardonLL yn Sir Fflint yn 2001. Nid oes cyfiawnhad cyfreithiol.

- Gwella'r cwmpas ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus drwy gynnwys darpariaeth ar gyfer hawl i wrandawiad cyhoeddus cyn y rhoddir caniatâd i ryddhau neu farchnata cnydau GM.
- Tynhau'r gofynion am wybodaeth ynghylch lleoliad rhyddhau, yn arbennig hadau sydd â chaniatâd Rhan C.

Cam 3:

Rhaid i'r Cynulliad ymchwilio'r defnydd o'r Gyfarwyddeb Rhyddhau Bwriadol i eithrio Cymru rhag rhyddhau cnydau GM a gymeradwywyd yn fasnachol yn y dyfodol.

Mae Erthygl 19.3(c) o Gyfarwyddeb 2001/18/EU yn caniatáu i amodau daearyddol gael eu gosod ar unrhyw ganiatâd ar gyfer cnydau GM yn y dyfodol, gan gynnwys ail-adolygu caniatâd sy'n bodoli.

Mae'r Gyfarwyddeb yn dynodi y gall amodau o'r fath fod "ar gyfer diogelu ecosystemau / amgylcheddau a/neu ardaloedd daearyddol penodol". Mae gan y Cynulliad bolisi penodol eisoes yn cyfyngu ar ddefnydd cnydau GM o fewn ei ffiniau. Mae yn y sefyllfa orau i ddadlau dros eithrio Cymru o ganiatâd marchnata GM yn y dyfodol. Gallai hyn fod yn gymwys ar gyfer tyfu neu fewnforio ar sail ei bolisi datganedig a'r angen i ddiogelu systemau ffermio ac amgylchedd amaethyddol unigryw Cymru rhag gwenwyn GM.

Mae drafft y cymal yn aneglur ond mae hwn yn faes y dylai'r Cynulliad fod yn ei ymchwilio os ydyw o ddifrif ynglŷn â chadw cnydau GM o Gymru yn y dyfodol.

Cam 4:

Rhaid i'r Cynulliad wrthod newidiadau arfaethedig DEFRA i'r rheoliadau Rhestru Hadau.

Mae DEFRA a Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig newidiadau i'r gweithdrefnau Cynrychioliadau Ysgrifenedig a Gwrandawiadau y Rhestr Genedlaethol sy'n gosod y rheolau ar gyfer ymglymiad y cyhoedd yn y broses Rhestru Hadau. Nod amlwg y cynigion yw rhwystro trafodaeth ynghylch diogelwch GM a materion amgylcheddol mewn gwrandawiadau hadau cyhoeddus (megis gwrandawiad ChardonLL).

Gwyddir bod Llywodraeth y DG yn anfodlon bod unigolion a mudiadau wedi gwrthwynebu Rhestru ChardonLL ac wedi rhoi tystiolaeth am agweddau GM o'r hedyn newydd. Cododd gwrthwynebwyr yn y gwrandawiad ChardonLL faterion cyfreithiol a gwyddonol difrifol iawn, na fyddent oni bai am hyn wedi cael eu datgelu. Ni all amrywiad symud ymlaen i Restru Cenedlaethol nes ei fod wedi cael caniatâd marchnata yn Ewrop o dan Gyfarwyddeb 90/220 (sydd newydd ei disodli gan Gyfarwyddeb 2001/18). Mae Llywodraeth y DG o'r farn y dylai materion diogelwch GM fod wedi eu hymchwilio'n iawn yn ystod y cais am broses ganiatâd ac ni ddylid ei ystyried yng nghyd-destun gwrandawiad hadau.

Mewn cefnogaeth i'r safiad yma, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru "nad y system Rhestr Genedlaethol yw'r lle i herio asesiadau diogelwch GM" (19 Medi 2002, llythyr gan Huw Jones, Cynulliad Cenedlaethol wedi ei atodi at bapur ymgynghorol ar Weithdrefnau Cynrychioliadau Ysgrifenedig a Gwrandawiadau y Rhestr Genedlaethol). Mae'r cynnig yn dynodi mai unig fwriad y newidiadau i'r Rheoliadau yw symud gwrandawiadau cyhoeddus o'r cyd-destun Hadau i gyd-destun GM penodol ac mae LlCC yn addo "sefydlu mecanweithiau gwell, effeithiol a thryloyw fydd yn caniatáu i bryderon cyhoeddus ar ddiogelwch GM i gael eu clywed a'u hystyried **cyn** y rhoddir cymeradwyaeth (h.y. o dan gyfundrefn Cyfarwyddeb 90/220 yr UE ar ryddhau organebau GM [ei bwyslais]".

Fodd bynnag, mae hyn yn gamarweiniol gan yn amlwg nad yw y cynigion ar gyfer gweithredu 2001/18 yn cynnig **hawl** cyfartal i'r gwrandawiad cyhoeddus o dan y gweithdrefnau Rhestru Hadau. Yn wir, ar hyn o bryd **nid** oes cynigion i greu unrhyw wrandawiad o'r fath yn y cyd-destun GM. Mewn geiriau eraill byddai'r newid arfaethedig i'r weithdrefn Gwrandawiad hadau yn tynnu yr unig gyfle sy'n bodoli ar hyn o bryd i aelodau'r cyhoedd i gyfrannu i'r drafodaeth ar ddiogelwch GM mewn gwrandawiad cyhoeddus ac iddynt hwy herio'n gyhoeddus y dystiolaeth wyddonol y bydd y ceisydd caniatâd ac ACRE yn dibynnu arni. Rhaid i'r Cynulliad wrthod unrhyw dynnu o'r hawl gwrandawiad hwn oni bai, a hyd nes, y sefydlir hawl cyfatebol i wrandawiad cyhoeddus llawn yng nghyd-destun GM.

Cam 5:

Sefydlu ACRE Cymreig annibynnol i gynghori'r Cynulliad ar faterion GM.

Bu'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd (ACRE) yn ffactor cyfyngu allweddol ar sut y mae Gweinidogion y Cynulliad yn defnyddio'u grym. Mae Gweinidogion y Cynulliad yn teimlo'n anesmwyth yn gwrthod cyngor ACRE rhag ofn yr ymddengys eu bod wedi ymddwyn yn afresymol. Maent yn poeni y gallai gweithredoedd o'r fath eu hagor i adolygiad barnwrol o'u penderfyniad.

Mae angen i'r Cynulliad sefydlu ei Bwyllgor Ymgynghorol ei hun fyddai'n rhoi cyngor annibynnol iddo gan gymryd i ystyriaeth nodweddion o amgylchedd Cymru a pholisi datganedig y Cynulliad ar gnydau GM. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y Cynulliad wedi ei gamarwain gan ACRE yn y gorffennol.

Casgliad

Rydym wedi gosod pum her allweddol i'r Cynulliad i'w cwrdd er mwyn cadw cnydau GM allan o Gymru. Nid ond ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad y mae'r pum her yma, ond ar gyfer holl Aelodau Cynulliad o bob plaid. Bydd cadw Cymru'n rhydd o gnydau GM yn her ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n her sy'n werth ymateb iddi.

"Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn argyhoeddedig nad lle'r Cynulliad yw profi bod cnydau GM yn niweidiol, lle'r cynhyrchwyr yw profi eu bod yn ddiogel.

“Ar ddiwedd y dydd, mae’r mater hwn, fel nifer o rai eraill yn y Cynulliad yn fater o ewyllys wleidyddol. Ni allwn guddio tu ôl i’r gyfraith mwyach. Mae pobl Cymru’n disgwyl arweiniad gwleidyddol cadarn a bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud yn siwr eu bod yn ei gael.”

Mike German AC, 10 Mawrth 2000

Cefnogir yr ymgyrch yma gan:

Cymru Rhydd o GM
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Ffederasiwn Cenedlaethol o Sefydliadau’r Merched - Cymru
Merched y Wawr
Y Grŵp Strategaeth Organig
Cymdeithas y Pridd
Cymdeithas Cadwyr Gwenyn Cymru
Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig
Ecocentre Gorllewin Cymru
Yr Urdd
Gofal Genynnau Caerfyrddin

Tachwedd 2002

Cyhoeddwyd gan:
Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Arcêd y Castell
Caerdydd
CF10 1BY
Ffôn: 029 20229577
Ffacs: 029 20228775
Ebost: cymru@foe.co.uk
Gwefan: www.cyddcymru.co.uk